Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 -2031–
Datganiad Archwiliad gan
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sesiwn Gwrandawiad 3:
Penodau 3 a 4 Yr Amgylchedd Naturiol, Diwylliannol a Hanesyddol

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031

Sesiwn Gwrandawiad 3:
Penodau 3 a 4 Yr Amgylchedd Naturiol, Diwylliannol a Hanesyddol

Materion & Phethau sy'n Codi

Yr Amgylchedd Naturiol

1 Polisi Strategol D 'Yr Amgylchedd Naturiol':

a) Er nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r polisi hwn, a yw'n parhau i gyflawni ei ddiben wrth ddiogelu adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol?

1.1 Ydyw. Mae Polisi Strategol D yn parhau i gyflawni ei bwrpas o ran diogelu adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a nodweddion unigryw y Parc Cenedlaethol. Pwrpasau y Parc Cenedlaethol yw diolegu a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae'r pwrpasau hyn yn sail i'r holl bolisïau sydd yn y Cynllun. Mae Polisi Strategol D yn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ddiogelu a'i wella a rhoddir ystyriaeth lawn iddo wrth lunio penderfyniad ar geisiadau. Yn ystod proses Monitro Blynyddol y CDLl nid oes unrhyw faterion wedi eu canfod a fyddai'n awgrymu nad yw'r polisi yn parhau i gyflawni ei bwrpas. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad ar Adroddiad yr Adolygiad nac mewn unrhyw ymgynghoriad mwy diweddar. Mae yna bolisïau eraill yn y CDLl sydd yn diogelu adnoddau naturiol, mae Polisi Datblygu 1 hefyd yn cyfeirio at y materion hyn.

2 Gwarchodfa Natur Dywyll a Gwarchodfa Biosffer Dyfi (Polisi Datblygu 2):

a) Mae'r testun ychwanegol o fewn y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y dynodiadau hyn yn glir. Fodd bynnag, a ddylai'r Cynllun gydnabod y bydd datblygu mewn rhannau penodol o'r Parc Cenedlaethol yn anochel yn cael effaith ar y dynodiadau hyn?

2.1 Na ddylai. Oherwydd pwysigrwydd eu statws, a'r polisïau sydd mewn lle i'w diogelu, ni ddylai datblygu gael effaith ar y dynodiadau hyn. Hefyd, fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 4(c) yn Sesiwn Gwrandawiad 2 ynghylch Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri a *Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Goleuo Ymwthiol* (Hydref 2016); gellid goresgyn unrhyw effaith negyddol ar Warchodfa Awyr Dywyll Eryri o fewn datblygiadau presennol neu ddatblygiadau o'r newydd, felly ni ddylai unrhyw effaith negyddol ddigwydd. Yn ogystal, oherwydd datblygiadau mewn technoleg a'r bwriad i leihau goleuo llym, mae'n bosibl y gallai'r cyflwr awyr dywyll wella er gwaethaf cynnydd mewn datblygiadau newydd, cyn belled ag y bydd hyn yn derbyn sylw gan swyddogion cynllunio wrth iddynt ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio.

b) A fydd dynodi Gwarchodfa Awyr Dywyll yn arwain at 'ddull gweithredu ar ffurf 'blanced' tuag at asesu datblygiadau? Ac a ddylid gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol?

2.2 Dylid. Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod gwahaniaethu i fod rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol o safbwynt Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri. Fel

y nodwyd ym mharagraff 3.11 o'r CDLl, er bod y cyfan o'r Parc Cenedlaethol wedi ei ddynodi fel Gwarchodfa Awyr Dywyll, mae nifer o ardaloedd craidd wedi eu nodi ar y Map Cynigion lle bydd yn ofynnol i gynigion sydd angen golau newydd fod yn addas ar gyfer gofynion Meistr Gynllun Goleuo Allanol Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri ac yn cydymffurfio gydag ef. Mae'r meistr gynllun goleuo yn argymell nifer o raddau rheoli golau strae ar gyfer y gwahanol barthau sydd wedi eu hadnabod yn Eryri (gweler isod).

Parth	**Diffiniad**	**Engreifftiau Nodweddiadol**	**Goblygiadau**	**Dulliau i'w Cyflawni**
E0-0	Tywyll	Yn nodweddiadol ardaloedd lle nad oes neb yn byw e.e. Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol	Dim unedau goleuo allanol newydd ac fe anogir trigolion i addasu eu hunedau presennol	Addasu neu newid unedau presennol i'r perwyl hwn
E0-250	Tywyll yn bennaf. Mae peth gorlif golau yn anochel hyd at 250 m tu hwnt i'r ffynhonnell goleuni newydd neu hyd at derfyn yr eiddo pa un bynnag yw'r agosaf at yr eiddo	Pob eiddo anghysbell o fewn ffin y parth e.e. ffermydd ynysig	Mae'n rhaid i unedau newydd gydymffurfio a dylid annog trigolion i addasu eu hunedau presennol er mwyn atal dim mwy na 0.1 lux[1] yn crwydro y tu hwnt i'w heiddo	Mae'n rhaid i unedau newydd gael eu torri i ffwrdd / cysgodi waeth beth yw'r allbwn lwmen. Dylid annog addasu neu newid unedau presennol i'r perwyl hwn
E0-50	Tywyll yn bennaf. Mae peth gorlif golau yn anochel hyd at 50m y tu hwnt i'r ffynhonnell goleuni newydd neu hyd at derfyn yr eiddo pa un bynnag yw'r nesaf at yr eiddo	Goleuadau stryd cyfyngedig neu ddim	Mae'n rhaid i'r unedau newydd gydymffurfio a dylid annog trigolion i addasu unedau presennol i atal dim mwy na 0.25 lux rhag crwydro y tu hwnt i'w heiddo	Mae'n rhaid i unedau newydd gael eu torri i ffwrdd / cysgodi waeth beth yw'r allbwn lwmen. Dylid annog addasu neu newid unedau presennol i'r perwyl hwn
E1 yn y Warchodfa	Cynhenid tywyll. Mae gollyngiad goleuni o hyd at 0.5lux yn anochel ar ffin yr eiddo		Mae'n rhaid i unedau newydd gydymffurfio ac fe ddylid annog trigolion i addasu unedau sy'n bodoli'n barod er mwyn rhwystro unrhyw olau strae i mewn i ffenestri eu cymdogion trwy addasu unedau presennol i'r perwyl hwn	Anogir trigolion i ddefnyddio bylbiau gydag allbwn sy'n llai na 600 lwmen neu sicrhau bod yr uned goleuo yn gwbl ynysig / wedi'i gysgodi yn llawn os yw'n fwy na 1000 lwmen
E1 Y tu hwnt i'r warchodfa	Mae gorlifiad golau o hyd at 1 lwcs yn anochel ar ffin eiddo gan gynnwys unrhyw gyfraniad gan oleuadau stryd		Anogir trigolion i addasu unedau sy'n bodoli'n barod er mwyn rhwystro unrhyw olau strae i mewn i ffenestri eu	Anogir trigolion i ddefnyddio bylbiau gydag allbwn sy'n llai na 1000 lwmen neu sicrhau bod yr uned goleuo yn gwbl ynysig / wedi'i gysgodi yn llawn os yw'n fwy na 3000

			cymdogion trwy addasu unedau presennol i'r perwyl hwn	lwmen

2.3 Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae'r dynodiad Awyr Dywyll wedi ei rannu yn dri pharth sydd yn golygu yr ardaloedd Craidd (E0, E0-250 ac E0-50), yr Ardaloedd y tu allan i'r ardaloedd Craidd ond o fewn y Warchodfa (E1 yn y Warchodfa), a'r Ardaloedd y tu allan i'r Warchodfa a allai er hynny gael effaith (E1 y tu hwnt i'r warchodfa). Mae'r Awdurdod wedi canfod gwahaniaethau o fewn yr Ardaloedd Craidd (E0) – hyn oherwydd cymeriad a nodweddion yr ardaloedd - er mwyn darparu canllawiau fydd yn cefnogi ac yn annog cynnwys cymhelliad positif o fewn cynig am ddatblygiad. Fel y gwelir uchod, caiff E0-0 ei diffinio fel y brif ardal craidd 'dywyll' a cheir canllawiau ar oblygiadau'r diffiniad hwn a sut i gyflawni datblygiad ffafriol o fewn yr ardal hon. Caiff E0-250 ei diffinio fel 'tywyll yn bennaf' gyda gorlif golau yn anochel hyd at 250m y tu hwnt i ffynhonnell y goleuni, a diffinnir E0-50 hefyd fel 'tywyll yn bennaf' ond gyda gorlif golau anochel hyd at 50m y tu hwnt i'r ffynhonnell goleuni newydd. Gellir gweld mapiau o'r parthau hyn o fewn *CCA Goleuni Ymwthiol,* tud*.* 11-12.

2.4 Felly, yn olaf, mae'r Awdurdod yn cydnabod nac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol sydd o fewn Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri ac felly nid oes agwedd 'gweithredu ar ffurf blanced' wrth asesu datblygiadau.

c) A yw'r polisïau'n rhoi digon o eglurder ar y ffordd y bydd cynigion datblygu, sy'n debygol o effeithio ar y dynodiadau hyn, yn cael eu hystyried a lle bydd angen mesurau lliniaru a iawndal? A ddylid cynnwys hyn o fewn polisi?

2.5 Mae polisïau'r CDLl, megis Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd, Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Cyffredinol Datblygu, Polisi Strategol D: Amgylchedd Naturiol, Polisi Datblygu 10: Hysbysebion ac Arwyddion (Hydref 2016), Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden ac *CCA Goleuo Ymwthiol* (Hydref 2016) yn cynnig eglurhâd digonol o ran asesu cynigion datblygu a fyddai yn effeithio ar y dynodiadau hyn. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae'r testun ychwanegol o fewn y CDLl yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd y dynodiadau hyn, ac felly mae'n glir na fyddai unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar y dynodiadau hyn yn cael ei ganiatau gan yr Awdurdod. O safbwynt Gwarchodfa Biosffêr Dyfi, fel y nodwyd ym mhar. 3.16 o'r CDLl, amcan blaenaf y Gwarchodfeydd Biosffêr yw hyrwyddo perthynas gytbwys rhwng pobl a'u hamgylchedd naturiol trwy addysgu ac ysbrydoli'r gymuned leol i weithio'n gytun tuag at ddyfodol mwy cynaladwy. Mae hyn yn cydfynd ag amcanion y CDLl ac felly caiff unrhyw ddatblygiadau yma eu penderfynu yn unol â'r polisïau perthnasol a chanllawiau cenedlaethol.

2.6 Yn ychwanegol, er mwyn cynnwys eglurder digonol o fewn y polisïau, credir na ddylai'r polisïau fod yn feichus, a gellir gweld canllawiau pellach ar leddfu a iawndal o fewn yr CCAs *(Goleuo Ymwthiol, Tirweddau a Morweddau Eryri* a *Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesu Capasiti*), papurau cefndir. Byddai *Cynlluniau Rheoli Biosffêr Dyfi* yn cael eu hystyried fel dogfennau o bwys i roi sylw iddynt wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio.

2.7 Os bydd unrhyw bosibilrwydd y bydd datblygu yn cael effaith andwyol ar y dynodiad Awyr Dywyll, cynigir cyngor ar enghreifftiau o osodiadau goleuo derbyniol / annerbyniol, gloywder bylbiau, lliw y golau a roir allan, a lleoliad y goleuadau tu allan sydd wedi eu cynnwys o fewn *CCA Goleuo Ymwthiol*. Hefyd o

safbwynt *Cynllun Rheoli Biosffêr Dyfi* fe ddarperir cyngor lleddfu oherwydd nodweddion arbennig y safle. Ni chredir bod angen cynnwys lleddfu a iawndal o fewn y polisïau gan fod y polisïau a'r CCAs yn darparu eglurder digonol ar y modd y caiff cynigion datblygu sydd yn debygol o effeithio ar y dynodiadau hyn eu hystyried. Gellir canfod canllawiau pellach o fewn yr CCA, Papurau Cefndir a *Chynlluniau Rheoli Biosffêr Dyfi* os bydd angen.

2.8 Gallai hefyd fod yn addas cynnwys dangosydd monitro o fewn y fframwaith monitro yn achos ardal Biosffêr Dyfi ac Ardal Craidd Awyr Dywyll.

d) A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn Polisi Datblygu 2?

2.9 Gellir canfod canllawiau digonol i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio o fewn *CCA Goleuo Ymwthiol, CCA Tirweddau a Morweddau Eryri* a *CCA Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesu Capasiti.* Mae canllawiau o'r fath yn ymdrïn â datblygiadau derbyniol ac annerbyniol o fewn ardaloedd penodol, dulliau lleddfu, iawndal, ac atodiadau ar ffynonellau gwybodaeth ychwanegol. Ni chredir bod angen eglurhâd pellach o fewn Polisi Datblygu 2 gan fod y Polisi yn ddigonol o safbwynt darparu arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ar yr hyn sydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol o ran Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri a Gwarchodfa Biosffêr Dyfi.

3 Polisi Datblygu 3 'Ynni':

a) Mae'r newidiadau i'r Cynllun (testun ategol i Bolisi Datblygu 3) yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau gorsafoedd pŵer trydan dŵr / hydro a microgynhyrchu. Er na chynigir unrhyw newidiadau i'r polisi, sut bydd y cynllun yn asesu cynlluniau yn y dyfodol?

3.1 Nad oedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a'r Adroddiad Adolygu yn darparu tystiolaeth nad oedd Polisi Datblygu 3 yn perfformio fel y disgwylid a bod angen ei ddiwygio. Fodd bynnag, roedd sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ar y CDLl Adnau yn amlinellu eu bod angen manylion pellach fel bod Polisi Datblygu 3 yn adlewyrchu y Canllawiau Cenedlaethol. Mae Polisi Datblygu 3: Ynni wedi ei ddiwygio trwy gyfrwng y Newidiadau Ffocws (NFf11). Mae Polisi Datblygu 3 diwygiedig yn amlinellu yn fanylach y mathau o geisiadau gaiff eu caniatau yn y Parc Cenedlaethol ar sail eu heffaith ar y tirwedd. Cefnogir Polisi Datblygu 3 gan CCA a fabwysiadwyd (*CCA 10 Ynni Adnewyddol a Charbon Isel)* ac a gaiff ei ddiwygio i adlewyrchu'r polisi newydd unwaith y bydd y CDLl wedi ei fabwysiadu. Mae'r CCA yn cynnwys Ystyriaethau Cynllunio ar gyfer y gwahanol fathau o Ynni Adnewyddadwy, gan gynnwys heidro. Dyma'r ystyriaethau y bydd swyddogion yn penderfynu pob cais cynllunio yn eu herbyn. Amlinellir yn *Papur Cefndir 22: Asesiad Ynni Adnewyddadwy* (a adolygwyd ar gyfer y CDLl diwygiedig) bod llawer o'r capasiti heidro wedi ei ddefnyddio gan y Parc Cenedlaethol felly mae'n anhebygol y bydd yr Awdurdod bellach yn derbyn nifer fawr o geisiadau fel y gwelwyd yn y blynyddoedd a fu.

b) Mae'r Cynllun yn cydnabod bod tirwedd y Parc Cenedlaethol yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt. A yw'r Cynllun yn cydymffurfio â'r Polisi Cenedlaethol mewn perthynas â'r trothwyon ar gyfer gwahanol dechnolegau, ac a ddylai'r Cynllun ddarparu canllawiau ychwanegol i ddatblygwyr ar natur a graddfa'r cynlluniau ynni adnewyddadwy arfaethedig yn y Parc?

3.2 Ydyw. Wedi ystyried ymatebion i ymgynghoriad y CDLl Adnau mae'r Awdurdod wedi adolygu Polisi Datblygu 3 trwy gyfrwng y Newidiadau Ffocws (NFf 11). Y newidiadau a gynigir yw sicrhau bod Polisi Datblygu 3 yn cydymffurfio gyda Pholisi Datblygu Cenedlaethol ac egluro safiad yr Awdurdod ar natur a graddfa'r technolegau ynni adnewyddadwy a ystyrir yn dderbyniol o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r polisi diwygiedig yn darparu manylion pellach ar y trothwyon gaiff eu hystyriad o fewn y Parc Cenedlaethol. Mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd ar y Newidiadau Ffocws mae'r Awdurdod hefyd yn credu ei bod yn addas ychwanegu Tabl 23 o'r *Papur Cefndir 22: Asesiad Ynni Adnewyddadwy* yn y cyfiawnhâd rhesymegol. Mae'r tabl hwn yn dangos pa adnoddau theoretig sydd ar gael o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

3.3 Darperir canllawiau i ddatblygwyr a swyddogion yn *CCA Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.* Mae hefyd yn cynnwys ystyriaethau cynllunio ar gyfer y gwahanol fathau o gynlluniau ynni adnewyddadwy a all ddod gerbron *y* Parc Cenedlaethol.

c) Sut y bydd cynigion perthnasol i ffin y Parc Cenedlaethol o fewn yr ACLlau cyfagos yn cael eu hasesu..

3.4 Mae'r Awdurdod wedi arfer rhoi – a bydd yn parhau i roi – sylwadau ar geisiadau am ynni adnewyddadwy sydd yn agos i ffin y Parc Cenedlaethol, yn enwedig y ceisiadau hynny a allay effeithio ar y golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono. Caiff y cynigion eu hasesu yn erbyn pwrpasau y Parc Cenedlaethol, Polisi Datblygu 2 ac hefyd yr CCA's *Tirweddau a Morweddau* a *Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesu Capasiti*. Mae golygfeydd tuag at y Parc Cenedlaethol yr un mor bwysig â'r rhai allan o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r ardal o gwmpas y Parc Cenedlaethol yn bwysig o safbwynt cyflwyno pobl i'r Parc Cenedlaethol.

4 Mwynau:

a) A yw'r newidiadau a gynigir i Bolisïau Strategol E1, E2 ac E3 yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac yn darparu sylfaen glir ar gyfer delio â datblygiadau ar waddodion agregau neu fwynau wedi eu diogelu, yn ogystal ag asesu cynigion newydd ar gyfer tynnu mwynau yn y Parc Cenedlaethol?

4.1 Mae'r newidiadau a fwriedir i Bolisïau Strategol E1, E2, ac E3 yn adlewyrchu polisi cenedlaethol tra hefyd yn cymryd i ystyriaeth ddynodiadau a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae PPW (Argraffiad 9) paragraff 14.3.2 yn nodi *'na ddylai datblygu mwynau ddigwydd o fewn Parciau Cenedlaethol…., heblaw mewn amgylchiadau eithriadol'. Felly mae'n rhaid i bob cais mwynau fod yn destun yr archwiliad mwyaf trwyadl ac i bob datblygiad mwynau fod er budd y cyhoedd cyn cael hawl i fynd rhagddynt'.* Bydd yr ystyriaeth yn cynnwys asesiad o'r angen am y datblygiad **yn unol ag ystyriaethau'r DU** o gyflenwi mwynau. Bydd asesiad o'r angen am y datblygiad hefyd yn unol â pholisi cenedlaethol ac â Pholisi Strategol B: Datblygiadau Mawr.

Mae categorïau adnoddau agregau yn cynnwys:

- Categori 1 Mae agregau Categori 1 yn adnoddau sydd yn debygol o fod o bwysigrwydd **cenedlaethol** ar lefel Chymru (gall rhai fod o **bwysigrwydd i'r DU**).
- Categori 2 Mae agregau category 2 yn adnoddau sydd o **bwysigrwydd ïs na chenedlaethol** ond a allai fod yn bwysig ar lefel rhanbarthol neu leol.

4.2 Fel yr amlinellwyd ym *Mhapur Cefndir 9: Mwynau* mae'r Awdurdod yn credu mai

adnoddau Categori 1 yn unig y dylid eu diogelu o ystyried dynodiad y Parc Cenedlaethol a'r ffaith ei fod wedi ei ddiogelu rhag datblygiadau mwynau mawr gan bolisi cenedlaethol ar ddatblygiadau mawr.

4.3 Ni ystyrir bod angen diogelu'r nifer fawr o Agregau Categori 2 a geir yn y Parc Cenedlaethol gan fod polisïau eraill yn y CDLl yn eu diogelu ac ni fyddai llawer o ddiben eu diogelu. Mae paragraff 3.6 o *Bapur Cefndir 9* yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y caiff mwynau Categori 2 eu diogelu gan bolisïau eraill yn y cynllun, sef:

- Ardaloedd a ddaw o dan ddynodiadau cadwraeth natur Ewrop, ac a ddiogelir rhag datblygu anaddas gan Bolisïau yn y CDLl.
- Nid ydynt yn 'brin' o fewn cyd-destun lleol ac mae'n anodd credu y gallai unrhyw fath o ddatblygiad halogi dim mwy na rhan fach iawn o'r ardal gyfan.
- Pe byddai unrhyw fwriad i gloddio mwynau yn yn dyfodol, byddai gweithio agredau gradd isel ar raddfa eang yn anhebygol o fodloni'r prawf 'amgylchiadau eithriadol' a amlygir o fewn polisi lleol a chenedlaethol.
- Mae'r Awdurdod yn tynnu baich oddi wrth ddatblygwyr o fewn y Parc Cenedlaethol trwy beidio â diogelu adnoddau categori 2 a thrwy hynny ddangos nad yw gweithio'r adnoddau yn economaidd hyfyw, byddai hyn yn angenrheidiol pe byddent ar raddfa eang.
- Mae llawer o'r tir yn fynydd a rhostir ac ymhell o'r prif ffyrdd, byddai cael mynediad at yr adnodd yn anodd iawn mewn llawer ardal ac yn creu effeithiau andwyol ar edrychiad y tirlun.

4.4 Fel yr amlinellwyd yn y rhesymau uchod, i raddau mawr iawn mae mwynau categori 2 eisoes wedi eu diogelu rhag halogiad gan bolisïau lleol a chenedlaethol eraill.

4.5 Mae Polisïau E1, E2 ac E3 yn rhoi sail clir ar gyfer delio gyda datblygiadau mewn safleoedd agregau a ddiogelir ac asesu cynigion newydd am gloddio mwynau o fewn y Parc Cenedlaethol. Dylid darllen y CDLl yn ei gyfanrwydd ac oherwydd sensitifrwydd cloddio mwynau o fewn y Parc Cenedlaethol byddai polisïau eraill hefyd yn cael eu hystyried wrth lunio penderfyniad ar gloddio mwynau, gan gynnwys Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr.

b) A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn y Cynllun?

4.6 Dylid ac mae manylion digonol yn y polisi i alluogi datblygwyr/ymgeiswyr i benderfynu pa wybodaeth y mae'r Awdurdod yn dymuno ei derbyn yn yr achosion eithriadol hyn. Byddai'r Awdurdod yn fodlon cynnwys rhagor o wybodaeth ar gais yr Arolygydd.

5 Gwastraff:

a) A yw Polisi Datblygu 4 yn darparu fframwaith clir ar gyfer asesu ceisiadau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd?

5.1 Ydyw. Mae Polisi Datblygu 4 yn darparu fframwaith glir ar gyfer asesu ceisiadau am adnoddau newydd ar gyfer rheoli gwastraff. Gwnaed diwygiadau i Bolisi Datblygu 4 a'r testun cefnogol trwy'r Newidiadau Ffocws (NFf14) sydd yn amlinellu'r angen am Asesiad Cynllunio Gwastraff. Ers 2011 ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am adnodd rheoli gwastraff ar raddfa fechan. Gan y dylid darllen y CDLl yn ei gyfanrwydd, wrth lunio penderfyniad ar geisiadau am adnodd

rheoli gwastraff o'r newydd, byddid hefyd yn ystyried polisïau perthnasol eraill yn y CDLl.

b) A yw'r Cynllun yn darparu digon o arweiniad i ddatblygwyr / ymgeiswyr ynghylch pa wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu i gefnogi unrhyw gais cynllunio? A ddylid egluro hyn o fewn Polisi Datblygu 4?

5.2 Ydyw. Mae'r CDLl yn darparu canllawiau digonol i ddatblygwyr/ymgeiswyr ynghylch y wybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei darparu i gefnogi cais cynllunio. Yn dilyn sylwadau ar y Cynllun Adnau, mae'r Awdurdod wedi diwygio Polisi Datblygu 4 trwy NFf14. Mae'r diwygiad yn nodi y byddai asesiad cynllunio gwastraff yn ofynnol i gefnogi unrhyw gais. Mae'r testun eglurhaol yn egluro pwrpas yr asesiad ac ym mhle y gellir cael cyngor pellach. Yn dilyn y diwygiadau hyn derbyniwyd sylwadau yn nodi cefnogaeth iddynt.

Yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

6 Polisi Strategol Ff 'Amgylchedd Hanesyddol':

a) A yw'r cyfeiriad at Ddarpar Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn y polisi ac ar y map cyfyngiadau yn gynamserol o gofio mai dim ond ar restr amhendant y'i cyflwynir i UNESCO?

6.1 Nac ydyw. Nid yw cyfeiriad at Ddarpar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y polisi ac ar y map cyfyngiadau yn gynamserol. Gall y broses o dderbyn yr enwebiad fod yn hir ac mae perygl o golli neu leihau gwerth yr asedau gwerthfawr yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol (Cyngor Gwynedd yn yr achos hwn) ddangos i'r rhai fydd yn asesu'r cais Darpar Safle Treftadaeth y Byd bod mesurau mewn lle i ddiogelu Gwerth Bydeang Eithriadol (OUV) y safle. Felly, mae cynnwys yr ardal sydd yn destun Darpar Safle Treftadaeth y Byd o fewn Polisi Strategol Ff yn rhannol gwrdd â gofynion diogelu a rheoli, a diogelu integredd/dilysrwydd y Safle.[1] Os yw datblygiad yn ansensitif ac yn anaddas ei ddyluniad, graddfa a lleoliad, gallai hyn arwain at niwed sylweddol i ardaloedd, gan effeithio'n andwyol ar osodiad sylfaenol a chymeriad yr ardaloedd hyn. Felly, mae'r cyfeiriad nad yw datblygiad yn effeithio'n niweidiol ar Ddarpar Safle Treftadaeth y Byd yn unol â'r Canllawiau Gweithredol ar gyfer gweithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd 'na chaiff unrhyw ddatblygiad sydd yn niweidio integredd/ dilysrwydd safle fel darpar safle Treftadaeth y Byd o Werth Bydeang Eithriadol ei gymeradwyo'. Hefyd, mae mwyafrif Darpar Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn ardaloedd yng Nghymru a gofnodir ar gofrestr tirlweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig/eithriadol. Caiff y tirlweddau hyn eu cynnwys ar y map cyfyngiadau, ac felly byddant yn ystyriaeth bwysig wrth lunio penderfyniad ar geisiadau cynllunio. Hefyd mae polisi cyffelyb wedi ei gynnwys o fewn CDLl Gwynedd a Môn a fabwysiadwyd yn ddiweddar, a derbyn bod y Darpar Safle Treftadaeth y Byd wedi ei leoli ar draws dau awdurdod lleol mae cael polisi cyffelyb yn addas ac yn sicrhau bod cyngor i ddarpar ddatblygwyr yn gyson ar draws y ddau awdurdod lleol.

b) Sut y bydd ceisiadau cynllunio yn yr ardaloedd hyn yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod interim hwn?

6.2 Os caiff y diwygiadau a fwriedir i Bolisi Strategol Ff: Amgylchedd Hanesyddol a'r

[1] Nodwyd o fewn y canllawiau gweithredol ar gyfer Gweithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd gan amlinellu pwysigrwydd y tri philer sydd yn cyfleu 'Gwerth Bydeang Eithriadol' – (i) meini prawf, (ii) dilysrwydd/integredd (iii) diogelu a rheoli, Mae ei gynnwys yn sicrhau 'dilysrwydd/integredd' a 'diogelu a rheoli' ar gyfer dynodi yn y dyfodol.

testun ychwanegol perthnasol i'r polisi eu mabwysiadu, yna caiff ceisiadau cynllunio o fewn yr ardaloedd hyn eu hasesu yn unol â Pholisi Strategol Ff a Chanllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol eraill perthnasol. Hefyd, mae trafodaethau ar y cyd rhwng yr Awdurdod, Cyngor Gwynedd a thirfeddianwyr allweddol yn aw yn mynd rhagddynt er mwyn cytuno ar y ffordd orau o reoli datblygu yn yr ardaloedd hyn yn y dyfodol. Bydd hyn ar ffurf dogfen CCA neu CCA yn seiliedig ar y Cynllun Rheoli ar gyfer y safle dan sylw.

6.3 Fe all fod yn addas cynnwys monitro'r ceisiadau a ganiateir o fewn Darpar Safle Treftadaeth y Byd a Safle Treftadaeth y Byd (Harlech) yn y Fframwaith Monitro.

7 Polisi Datblygu 9 'Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig'

a) Beth yw ystyr y term 'cynllun arallgyfeirio gwledig'? A ddylai hyn fod yn 'arallgyfeirio amaethyddol' yn unol â Pholisi Datblygu 20 er budd cysondeb? Os felly, a ddylai'r ddau bolisi groesgyfeirio at ei gilydd.

7.1 Camgymeriad golygyddol yw 'Cynllun arallgyfeirio gwledig' – dylai ddarllen fel a ganlyn: 'cynllun **menter** wledig'. Bydd yn ofynnol cywiro hyn yn y CDLl.

b) A ddylai'r polisi ddarparu eglurhad a chyfiawnhad pellach ar y gofyniad am dalu swm cymudo ar gyfer anheddau'r farchnad agored. A ddylai'r polisi groes gyfeirio at Bolisi Strategol Ch?

7.2 Na ddylai. Nid oes angen i'r polisi ddarparu eglurder a chyfiawnhâd pellach ar yr angen i dalu symiau cymudo am dai marchnad agored. Byddai ychwanegu'r cyfiawnhâd hwn at Bolisi Strategol Ch yn gallu arawain at ddryswch diangen. Mae'r cyfiawnhâd dros ofyn am swm cymudo am dai wedi ei gynnwys yn y testun eglurhaol sydd yn cefnogi Polisi Strategol G ac amlinellir cyfiawnhâd pellach yn y fersiwn a ddiweddarwyd o *CCA Tai Fforddiadwy* yr Awdurdod. Er eglurder, gallai'r Awdurdod groesgyfeirio i'r cyfiawnhâd a resymwyd sydd yn cefnogi Polisi Strategol G o fewn y cyfiawnhâd a resymwyd a geir ym Mholisi Datblygu 9.

7.3 Nid oes angen i'r polisi groesgyfeirio i Bolisi Strategol Ch gan y bydd galw bob amser am gyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy, mae'r CDLl yn anelu at leihau croesgyfeiriadau o fewn polisïau gan y dylid darllen y CDLl yn ei gyfanrwydd. Mae Polisi Strategol Ch yn amlinellu senarios eraill lle gall yr Awdurdod ofyn am gyfraniadau trwy gytundeb adran 106, fel y rhai perthnasol i seilwaith a gwella tirwedd er enghraifft yn hytrach na chyfraniad tai fforddiadwy.

8 A yw'r Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer gweithredu a monitro'r amgylchedd naturiol, diwylliannol a hanesyddol?

8.1 Ydyw. Mae yma sail cadarn ar gyfer gweithredu a monitro'r amgylchedd naturiol, diwylliannol a hanesyddol. Mae'r fframwaith monitro a fabwysiadwyd wedi sicrhau bod y polisïau sydd yn berthnasol i'r penawdau hyn wedi eu monitro yn effeithlon gyda lefelau triger addas. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad mai nifer fach iawn o ddiwygiadau oedd eu hangen i'r penawdau hyn. Gyda'r ychwanegiadau a gynigiwyd yn gynharach yn y datganiad, ystyrir bod y fframwaith monitro yn y cynllun a fabwysiadwyd yn parhau yn berthnasol ac yn sicrhau monitro'r amgylchedd naturiol, diwyllannol a hanesyddo yn effeithlon.

8.2 Mae yma rai camgymeriadau e.e. cyfeirio at sefydliadau megis CCW - mae'n ofynnol eu hadolygu a'u cywiro.

8.3 Os bydd angen, mae'r Awdurdod yn barod i weithio gyda'r Arolygydd a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gweithrediad pendant a fframwaith monitro gadarn.